CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

YMATEB I BRYDER DIFRIFOL AM WASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDODAU LLEOL

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhagymadrodd

Mae'r protocol hwn yn disgrifio sut y bydd y Cynulliad yn ymateb i bryderon difrifol am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n cyfeirio at bwerau a swyddogaethau cyffredinol y Cynulliad o dan ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol. O ran y cyfeiriad ynddo hefyd at bwerau'r Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'n ategu'r protocol ar bwerau ymyrraeth a gyhoeddwyd fel atodiad i Gylchlythyr 14/2000 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddf Llywodraeth Leol 1999: Cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol Cymru ar Werth Gorau.

Mae'r protocol hwn wedi cael ei ysgrifennu yn ysbryd y *Fframwaith ar gyfer Partneriaeth - Cymru* a gafodd ei lofnodi ym mis Rhagfyr 1997 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ran y llywodraeth a Chadeirydd ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar ran awdurdodau lleol. Mae'n rhoi mynegiant i'r nod a rennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol Cymru i godi safonau gwasanaethau cymdeithasol, cefnogi a chynorthwyo awdurdodau lleol i wella gwasanaethau, darparu fframwaith clir ar gyfer ymyrraeth gan Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn achosion o fethiant, a phroses drefnus ar gyfer ailgydio yn y trefniadau arferol ar ôl ymyrraeth.

1.2 Rôl Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (SSIW)

Mae SSIW yn gweithredu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i arolygu a monitro gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol ac eraill ac i ddatblygu arferion da, ac mae'n rhoi cyngor proffesiynol i'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Mae ganddi rôl sylfaenol, felly, yn y gwaith o ffurfio barn ynghylch perfformiad gwasanaethau ac yn y gwaith o ddelio ag awdurdodau lleol y ceir pryder difrifol yn eu cylch. Wrth wneud hynny bydd yn gweithio'n glòs ag is-adrannau polisi perthnasol y Cynulliad, yn arbennig y rheini yn y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Grŵp Llywodraeth Leol. Bydd SSIW hefyd yn ymgynghori fel bo'n addas ag arolygiaethau eraill, archwilwyr dosbarth a'r Comisiwn Archwilio.

1.3 Rôl CLlLC, Syniad ac IDeA wrth helpu awdurdodau sydd mewn perygl o fethu

Lle bo tystiolaeth a phrofiad yn dangos bod awdurdod lleol mewn perygl o fethu yn ei ddyletswyddau o ran gwasanaethau cymdeithasol, mae sawl ffordd o gyflwyno gwelliannau. Cynghorwyr, swyddogion a darparwyr gwasanaethau ar gontract sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu gwasanaethau o

ansawdd a mynd i'r afael â gwendidau a methiannau. Mae CLILC a Syniad wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau i'w cynorthwyo i wella pan fo problemau'n bodoli, ac mae CLILC yn annog yr awdurdodau sy'n aelodau ohoni i roi rhybudd cynnar o unrhyw broblemau posibl a allai ddod i'r amlwg mewn arolygiadau, adolygiadau ar y cyd, adroddiadau drafft, cwynion, adolygiadau mewnol, neu ffynonellau eraill fel y gellir cynnig cyngor a chefnogaeth. Mae Asiantaeth Gwella a Datblygu llywodraeth leol (IDeA), sy'n gweithio'n glòs â Syniad, yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Gall awdurdodau eraill gynnig cymorth drwy rwydweithiau, neu gellir helpu'r awdurdod i nodi a chaffael cyngor a chymorth allanol arall.

1.4 Egwyddorion sy'n rheoli ymyrraeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Dim ond pan fydd tystiolaeth amlwg nad yw awdurdod yn cyflawni'i swyddogaethau'n ddigonol neu nad yw'n llwyddo i gwrdd â'i ofynion statudol y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arfer ei bwerau ymyrraeth statudol.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu'r awdurdod o'r rhesymau dros ymyrryd pan fydd yn defnyddio'i bwerau ymyrraeth statudol.

Bydd ffurf a maint yr ymyrraeth yn gymesur â'r math o fethiant, a'i ddifrifoldeb, a'r angen am welliant effeithiol.

Ac eithrio mewn achosion o fethiant difrifol neu heblaw bod angen ymyrryd ar frys, bydd yr awdurdod fel arfer yn cael y cyfle i wneud y gwelliannau angenrheidiol ei hun.

Bydd awdurdodau lleol yn rhoi ymatebion cywir ac amserol pan ofynnir iddynt am wybodaeth, ac yn dilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â'i bwerau a'r protocol hwn.

Mewn achosion lle y caiff swyddogaeth ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu berson sy'n gweithredu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r sawl a enwebwyd ganddo yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau statudol y byddai'r awdurdod fel rheol yn ddarostyngedig iddynt mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.

* * * * *

2. NODI PRYDER

2.1 Pryderon a ddaw i sylw SSIW

Gall SSIW glywed am bryderon drwy:
- arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd
- gwaith achos unigol
- gwaith monitro arferol
- cwynion oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau, staff, y cyhoedd
- gwybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill, Aelodau'r Cynulliad a swyddogion eraill.

2.2 Arferion Cyffredin

2.2.1 Arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd

Eir i'r afael â phryderon cyffredinol sy'n deillio o arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd drwy'r broses arferol o argymhellion mewn adroddiadau a chynllun gweithredu'r awdurdod. Mae SSIW (a thîm yr adolygiad ar y cyd) yn monitro'r ffordd y rhoddir y cynllun gweithredu ar waith. Caiff pryderon mwy penodol (er enghraifft achosion neu ddigwyddiadau unigol) eu cyfeirio at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac eir i'r afael â hwy fel yr achosion eraill a nodir isod.

Mae'r meini prawf ar gyfer ffurfio barn mewn arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd i'w cael yn yr atodiad. Os credir nad yw awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda neu nad yw'n debygol o wella, eir ati i ystyried a yw'r sefyllfa'n peri pryder difrifol, ac yna bydd SSIW yn cymryd y camau a amlinellir yn adran 4.

2.2.2 Gwaith Monitro Arferol

Bydd y gwaith monitro arferol yn codi cwestiynau ynghylch perfformiad awdurdodau. Os bydd y rhain yn awgrymu bod awdurdodau'n tanberfformio cryn dipyn, neu bod patrwm y gwasanaethau'n wahanol iawn i'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill, bydd SSIW yn holi'r awdurdodau ynghylch hyn. Efallai y bydd ymholiadau o'r fath o dro i dro yn amlygu pryderon na ellir eu datrys yn hawdd.

Os bydd perfformiad awdurdod, o'i gymharu ag amrediad o ddangosyddion cenedlaethol y cytunwyd arnynt, yn chwartel isaf awdurdodau Cymru, neu os bydd dangosyddion neu wybodaeth arall ynghylch meysydd gwasanaeth hanfodol yn ymddangos yn ddifrifol wael, eir ati i ystyried a yw'r sefyllfa'n peri pryder difrifol. Yna, bydd SSIW yn cymryd y camau a amlinellir yn adran 4. (Yn ymarferol, nid yw'n debygol y bydd gwybodaeth ynghylch perfformiad yn unig yn arwain at bryder difrifol; fel arfer bydd yn rhaid ei hystyried law yn llaw â thystiolaeth arall, megis arolygiad neu waith achos.)

2.2.3 Achosion eraill

Mae'r rhan fwyaf o bryderon yn cael eu datrys gan SSIW drwy ei gysylltiadau arferol ag awdurdodau lleol drwy Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Tynnir sylw'r Cyfarwyddwr at bryderon penodol yn ysgrifenedig, gan ddisgwyl y caiff y mater ei archwilio a'i ddatrys, ac yr anfonir adroddiad yn ôl at SSIW.

Os bydd unrhyw bryder penodol, neu ymateb yr awdurdod iddo yn arwain at bryder difrifol, bydd SSIW yn cymryd y camau a amlinellir yn adran 4.

3. DIFFINIO PRYDER DIFRIFOL

Perir pryder difrifol pan fo problemau, oherwydd eu dwyster, eu hamlder neu'u natur barhaus, yn rhai na ellir mynd i'r afael â hwy drwy'r dulliau arferol.

Gall awdurdod achosi pryder difrifol oherwydd:

Arferion:

- methu'n aml neu fethu'n ddifrifol i gwrdd â gofynion statudol neu fethu a dilyn arweiniad heb gyfiawnhad priodol
- methu amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu bosibilrwydd o niwed
- anhegwch mawr wrth ddelio ag unigolion sydd â hawl i wasanaeth
- tanberfformio cyson ar ddangosyddion allweddol

Staffio a rheoli:

- prinder staff addas mewn swyddi allweddol
- diffyg arweiniad a rheoli ansawdd effeithiol
- methu ymateb i bryderon a godwyd gan SSIW neu gyrff tebyg, na chymryd camau i gywiro'r gwall yn dilyn cwynion haeddiannol
- uwch reolwyr yn camarwain neu'n camhysbysu ar bwrpas

Polisi:

- gwahaniaethu annheg
- mynd yn groes i ganllawiau

Cysylltiadau allanol:

- diffyg yn y berthynas waith â phartneriaid allweddol
- cyhoeddusrwydd niweidiol difrifol a chyson, a fydd yn debygol o danseilio ffydd y cyhoedd yn y gwasanaeth.

Ym mhob achos bydd SSIW yn barnu pa mor ddifrifol yw'r problemau, eu hachosion a gallu'r awdurdod lleol i ddatrys y problemau hynny. Bydd y broses o nodi pryder, drwy arolygiadau, adolygiadau neu ddulliau eraill yn digwydd mewn modd agored a thrwy ymgynghori â'r awdurdod. Gall pryder difrfol arwain at ymyrraeth y tu hwnt i'r cyffredin.

4. DATGAN PRYDER

4.1 Llythyr rhagarweiniol

Bydd Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr, ac yn anfon copi at CLILC. Bydd y llythyr yn:

- datgan ei fod wedi'i ysgrifennu yn unol â'r protocol hwn
- datgan ei bod yn ymddangos bod achos i bryderu'n ddifrifol
- amlinellu'r rhesymau dros y pryder hwnnw
- gwahodd swyddogion yr awdurdod i gyfarfod i drafod a oes achos cyfiawn dros y pryderon difrifol, ac, os felly, pa gamau y gellir eu cymryd.

4.2 Cwrdd â swyddogion

Fel arfer, dylid cynnal y cyfarfod rhwng deng niwrnod gwaith ac ugain niwrnod gwaith o'r dyddiad y derbynnir y llythyr. (Mewn achosion brys, gellir trefnu cyfarfod yn gynt.)

Bydd y cyfarfod fel arfer yn cynnwys Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Dirprwy perthnasol, Pennaeth Grwp Gofal Cymdeithasol y Cynulliad (neu sawl sydd gyfystyr) (a/neu Bennaeth yr Is-adran berthnasol), y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch reolwyr perthnasol eraill o'r awdurdod lleol. Gellir gwahodd pobl eraill, fel bo'n briodol, megis cynrychiolydd o'r tîm adolygu ar y cyd neu'r Archwiliwr Dosbarth.

Bydd swyddogion yn trafod yr hyn sy'n peri pryder (gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau oddi wrth yr awdurdod yn honni nad yw'r rhain yn ddigonol i bryderu'n ddifrifol yn eu cylch), y camau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon, a chamau pellach y gallai'r Cynulliad eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon a/neu i fonitro datblygiad.

4.3 Llythyr i gadarnhau

Yn dilyn y cyfarfod, bydd Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu eto at y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chopi at CLILC.

Os nad oes achos mwyach i bryderu'n ddifrifol, dywedir hynny yn y llythyr. Bydd cysylltiadau'n parhau ar sail busnes arferol.

Os oes achos i bryderu'n ddifrifol o hyd, bydd y llythyr yn cadarnhau hyn, gan nodi ar ba sail a chan gadarnhau unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod ac unrhyw fesurau eraill i'w hystyried gan y Cynulliad. Dylai'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr dynnu sylw aelodau etholedig at y llythyr hwn (fel arfer Arweinydd y Cyngor a'r prif aelod dros wasanaethau cymdeithasol – cadeirydd y pwyllgor, aelod o'r cabinet neu'r sawl sydd gyfystyr). Bydd y Prif Arolygydd yn hysbysu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau

Cymdeithasol.

5. CAMAU I'W CYMRYD I FYND I'R AFAEL Â PHRYDER DIFRIFOL

Gall natur a threfn yr ymyriadau hyn ddibynnu ar y ffordd y daw'r pryderon difrifol i'r amlwg ac ar ymateb yr awdurdod.

5.1 Ymyrraeth SSIW

5.1.1 Cytuno ar gynllun gweithredu

Bydd SSIW yn ceisio cytuno ar y camau y dylai'r awdurdod eu cymryd er mwyn datrys y pryderon.

5.1.2 Monitro

Bydd SSIW yn cytuno gyda'r awdurdod ar gyfres o adroddiadau neu gyfarfodydd, neu'r ddau, i fonitro hynt y gwaith o ddatrys y pryderon.

5.1.3 Cymorth

Os bydd yr awdurdod yn ei chael hi'n anodd datrys y pryderon, bydd SSIW yn trafod gyda'r awdurdod pa gyngor a chymorth a allai fod ar gael, fel arfer drwy sefydliadau llywodraeth leol.

5.1.4 Arolygiadau ychwanegol

Gellir cynnal arolygiadau neu arolygiad dilynol ychwanegol i gadw llygad ar hynt y gwaith.

5.2 Ymyrraeth wleidyddol

5.2.1 Cyfarfod rhwng y Gweinidog a'r awdurdod

Efallai y bydd yr adeg y tynnir sylw Gweinidog y Cynulliad at y mater yn dibynnu ar y ffordd y daw pryderon difrifol i'r amlwg. Pan ddaw pryder difrifol i'r amlwg mewn adroddiad arolygu neu adolygu ar y cyd, neu os nad yw ymateb yr awdurdod i lythyr ffurfiol gan SSIW yn mynd i'r afael yn ddigonol a phryder difrifol, gall Gweinidog y Cynulliad ofyn am gyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor. Mae'r cyfarfod hwn yn debygol o:

- egluro pryder y Gweinidogion
- ceisio ymrwymiad y Pwyllgor i unioni pethau
- ceisio cytuno ar drefniadau ar gyfer cynllun gweithredu addas
- pennu sut y caiff hynt y gwaith ei fonitro
- egluro y gallai Gweinidog y Cynulliad ystyried camau pellach os nad yw'n fodlon â hynt y gwaith.

5.2.2 Pwerau ffurfiol:

Os nad ymddengys fod ymateb yr awdurdod yn debygol o ddatrys y pryder difrifol o fewn amser rhesymol, gall y Cynulliad ddefnyddio'i bwerau ffurfiol i roi cyfarwyddyd neu i gymryd camau eraill. Mae'r pwerau ffurfiol hyn yn cael eu hystyried fel y cam olaf a dim ond os nad yw'n debygol y byddai unrhyw ymyrraeth arall yn llwyddiannus y cânt eu defnyddio. Bydd y Cynulliad yn hysbysu'r awdurdod lleol a CLILC o'i benderfyniad i ddefnyddio pwerau ffurfiol. Ar wahân i resymau brys (a fyddai'n cael eu hegluro yn ysgrifenedig), rhoddir y cyfle i awdurdod wneud sylwadau ynghylch y camau arfaethedig.

5.3 Diwedd yr ymyrraeth

Mewn achosion lle y caiff swyddogaeth ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu berson sy'n gweithredu ar ei ran, bydd y Cynulliad yn ceisio rhoi'r swyddogaeth honno yn ôl i'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Mewn achosion lle mae'r Cynulliad yn gwneud cyfarwyddyd gyda grym parhaus, bydd y Cynulliad yn ceisio diddymu'r cyfarwyddyd hwnnw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Yn y ddau achos, bydd y Cynulliad yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol ac at CLlLC yn eu hysbysu o'r penderfyniad a'i resymau drosto.

Mewn achosion o ymyrraeth o dan y protocol hwn heb bwerau ffurfiol, bydd SSIW yn ysgrifennu at yr awdurdod, ac yn anfon copi at CLILC, pan fo'n fodlon nad oes achos i bryderu'n ddifrifol mwyach.

6 PERTHYNAS Â'R CYFRYNGAU A CHYFNEWID GWYBODAETH

Bydd unrhyw hysbysiadau, cyhoeddiadau neu ddatganiadau i'r wasg a gyhoeddir mewn perthynas ag unrhyw ran o'r gweithdrefnau ar gyfer ymyrraeth yr ymdrinnir â hwy yn y protocol hwn yn ddarostyngedig i'r cytundeb yn y ddogfen *Fframwaith ar gyfer Partneriaeth - Cymru* (paragraffau 11 a 12 *Cyhoeddiadau Cyhoeddus a Chyfnewid Gwybodaeth*). Yn ôl hwn, bydd pob parti sy'n rhan o'r cytundeb yn cyfleu hysbysiadau sy'n ymwneud â'r llall wrth y parti arall cyn neu ar yr un pryd ag y byddant yn eu cyfleu wrth y cyfryngau. Mae'n arfer cyffredin gan SSIW a'r tîm adolygu ar y cyd i rannu datganiadau i'r wasg drafft, yn gyfrinachol, o leiaf ddiwrnod cyn amser yr embargo.

ATODIAD

Crynodeb o'r pwerau ffurfiol sydd ar gael i'r Cynulliad

Pwerau gwasanaethau cymdeithasol:

Canllawiau

O dan a 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, bydd awdurdodau lleol yn gweithredu o dan gyfarwyddyd cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfarwyddiadau

O dan a 7A Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, bydd pob awdurdod lleol yn arfer eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir iddynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Methiant

O dan a 7D Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fodlon bod unrhyw awdurdod lleol wedi methu, heb eglurhad rhesymol, â chydymffurfio ag unrhyw un o'i ddyletswyddau sy'n rhan o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (ac eithrio dyletswydd a orfodwyd gan neu o dan Ddeddf Plant 1989), gall [y Cynulliad] wneud gorchymyn yn datgan nad yw'r awdurdod hwnnw wedi cyflawni'r ddyletswydd honno. Gallai gorchymyn o'r fath gynnwys cyfarwyddiadau i sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd.

O dan a 84 Deddf Plant 1989, os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fodlon bod unrhyw awdurdod lleol wedi methu, heb eglurhad rhesymol, â chydymffurfio ag unrhyw un o'r dyletswyddau a orfodwyd arno gan neu o dan y Ddeddf hon, gall [y Cynulliad] wneud gorchymyn yn datgan nad yw'r awdurdod hwnnw wedi cyflawni'r ddyletswydd honno. Yn y gorchymyn, ceir rhesymau'r Cynulliad dros ei wneud a gallai gynnwys cyfarwyddiadau i sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

Pwerau Llywodraeth Leol (gwerth gorau):

Cyfarwyddyd

O dan a 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999, os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n fodlon bod awdurdod gwerth gorau'n methu â chydymffurfio â rhan gwerth gorau y Ddeddf, gall gyfarwyddo'r awdurdod:

- i baratoi neu ddiwygio cynllun gweithredu
- i ddilyn gweithdrefnau penodedig mewn perthynas â chynllun perfformiad
- i adolygu sut y mae'n gweithredu swyddogaethau penodol

- i gymryd unrhyw gamau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol neu'n fuddiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion.

Methiant

Gall y Cynulliad gyfarwyddo

- bod swyddogaeth benodedig yr awdurdod yn cael ei harfer gan y Cynulliad neu'r sawl a enwebir ganddo, a
- bod yr awdurdod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau oddi wrth y Cynulliad neu'r sawl a enwebir ganddo mewn perthynas ag arfer y swyddogaeth honno a'i fod yn darparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn arfer y swyddogaeth.

Ar wahân i achosion brys, dim ond ar ôl rhoi cyfle i awdurdod wneud sylwadau y dylid defnyddio'r pwerau cyfarwyddo a methu hyn.

ATODIAD

LLUNIO BARN MEWN AROLYGIADAU

Mae'r papur hwn yn dangos sut y bydd SSIW yn llunio barn gyffredinol yn ei arolygiadau. Mae'n cadw'n glòs at y meini prawf ar gyfer llunio barn a ddatblygwyd gan y tîm adolygu ar y cyd, mewn ymgynghoriad â phobl eraill cysylltiedig.

Mae arolygwyr yn casglu tystiolaeth ar gyfer y broses o lunio barn drwy ddefnyddio safonau a meini prawf SSIW ei hun wrth arolygu'r prif wasanaethau. Gall arolygwyr hefyd gyfeirio at feini prawf yr adolygiad ar y cyd (amgaeedig) wrth benderfynu'n derfynol.

Noder:

Mae'r papurau yn yr atodiad hwn yn ddilys ar hyn o bryd. Byddant yn cael eu hadolygu pan fydd y fethodoleg ar gyfer adolygu ar y cyd ac arolygiadau yn cael eu diwygio, mewn ymgynghoriad â'r carfanau perthnasol.

Pa mor dda y gwasanaethir pobl?

Bernir nad yw awdurdodau'n gwasanaethu pobl yn dda [gwasanaeth gwael] os:

- oes meysydd sylweddol lle nad oes gwaith statudol wedi'i neilltuo
- oes trefniadau mynediad gwael a/neu amseroedd aros hir am asesiadau a/neu wasanaethau
- nad ydynt yn gallu cwblhau eu hadolygiadau statudol o fewn amser boddhaol
- nad ydynt yn gallu darparu gwasanaethau o fewn amser boddhaol.

Bernir nad yw awdurdodau'n gwasanaethu rhai pobl yn dda [gwasanaeth gweddol] os:

- oes ganddynt systemau asesu a darparu gwasanaeth sylfaenol ond bod rhai meysydd gwannach
- oes rhai meysydd lle ceir cofnodion gwael neu waith heb ffocws
- oes ganddynt rai gwasanaethau costus a dewis cyfyng o wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl
- oes datblygiadau y'u hystyrir fel rhai ychwanegol gyda phocedi o arferion da ynysig nad ydynt yn effeithio ar y system gyfan
- oes cydweithio anghyson â sefydliadau eraill o ran darparu gwasanaethau di-dor
- ydynt yn defnyddio mwy ar atebion sy'n seiliedig ar ofal preswyl a gofal sefydliadol i ddiwallu anghenion pobl, yn hytrach na phecynnau gofal i'r unigolyn yn y gymuned.

Bernir bod awdurdodau'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o bobl yn dda [gwasanaeth da] os:

- oes ganddynt systemau cadarn ar gyfer asesu a darparu gofal, sy'n ystyried y cydbwysedd rhwng diogelwch ac annibyniaeth
- oes ganddynt bartneriaethau cryf yn datblygu gydag ystod o sefydliadau eraill
- yw'r gwasanaethau wedi'u llunio i gyflawni canlyniadau penodol ar gyfer unigolion fel y'u diffinnir drwy'r broses asesu
- oes gwaith statudol yn cael ei gwblhau o fewn terfynau amser.

Bernir bod awdurdodau yn gwasanaethu pobl yn dda, ar y cyfan, [gwasanaeth gwych] os:

- oes ganddynt adrannau sy'n cael eu rheoli'n dda sy'n cyfuno agwedd broffesiynol at y gwaith gyda thystiolaeth o ganlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau; ffocws clir i'r gwaith sy'n cael ei wneud
- oes partneriaethau cryf rhyngddynt a sefydliadau sy'n bartneriaid a'u bod, ar y cyd, yn darparu amrediad eang o wasanaethau hygyrch ac addas i ddiwallu anghenion
- oes teimlad bod defnyddwyr y gwasanaethau yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud a bod ganddynt bŵer o fewn y prosesau
- ydynt yn amlwg yn targedu adnoddau prin.

Beth yw'r rhagolygon presennol ar gyfer gwella?

Bernir bod gan awdurdodau ragolygon gwael o ran gwella [na] os:

- oes diffyg arweiniad gwleidyddol, gweledigaeth gorfforaethol a/neu arweiniad oddi wrth reolwyr
- oes peth ansicrwydd ynghylch eu hyfywedd ariannol
- nad oes llawer o dystiolaeth o fynd i'r afael â diffygion difrifol
- nad ydynt, mewn hunan-ddadansoddiad, yn cydnabod bod diffygion [gan gynnwys mewn adolygiadau Gwerth Gorau].

Bernir bod gan awdurdodau ragolygon ansicr [annhebygol] os:

- nad yw eu harweinyddiaeth a'u gweledigaeth wleidyddol yn mynd i'r afael â'r her sy'n wynebu'r awdurdod
- yw'r broses o fynd ati i gynnal adolygiadau Gwerth Gorau yn araf neu'n wael
- oes ganddynt weledigaeth nad yw'n cael ei rhannu gan fudd-ddeiliaid neu staff
- mai mewn rhai meysydd, yn unig, y ceir gwelliannau
- oes ganddynt hunan-ddadansoddiad sy'n hepgor rhai meysydd hanfodol lle mae angen cymryd camau.

Bernir bod gan awdurdodau ragolygon addawol [tebygol] os:

- oes ganddynt arweiniad gwleidyddol cryf a gefnogir gan agenda corfforaethol ac arweiniad oddi wrth reolwyr sy'n arwain at wella gwasanaethau (rhaid i uwch reolwyr ddangos diddordeb mewn safonau ymarfer a darparu gwasanaethau)
- ceir hunan-ddadansoddiad cywir
- ceir dechrau da i adolygiadau Gwerth Gorau
- ceir ychydig o gynllunio gweithlu
- oes ganddynt bolisïau cynhwysol sy'n cael eu gweld fel rhai sy'n estyn allan at y gymuned gyfan.

Bernir bod gan awdurdodau ragolygon gwych [ydyn] os:

- oes tystiolaeth gref eu bod wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf
- oes ganddynt bartneriaethau strategol cryf gyda sefydliadau eraill
- yw pawb yn meddu ar weledigaeth ac arweinyddiaeth glir
- ydynt yn cynllunio'r gweithlu gyda phartneriaid strategol
- oes ganddynt sylfaen ariannol gadarn y gellir datblygu arni
- ydynt yn llwyddo i gael canlyniadau ardderchog mewn adolygiadau Gwerth Gorau
- ydynt yn amlwg yn gweithio gyda'r gymuned wrth ddatblygu'r agenda gofal cymdeithasol
- ydynt yn defnyddio adnoddau mewn ffordd ardderchog.

Meini prawf yr adolygiad ar y cyd ar gyfer llunio barn

PA MOR DDA Y GWASANAETHIR POBL?

Gall yr Awdurdod ddangos bod ganddo:

Hanfodol (pwysig)

1. Drefniadau effeithiol i fodloni gofynion statudol, rheoliadau a chanllawiau. Polisïau a gweithdrefnau i nodi a mynd i'r afael â pheryglon a threfniadau i sicrhau bod gweithiwr allweddol yn cael ei bennu ar gyfer pawb sy'n agored i niwed.

2. Gwasanaethau sy'n galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol mewn amgylchedd sydd mor ddiogel ag sy'n rhesymol o ystyried eu hamgylchiadau personol.

3. Dulliau asesu a chynllunio gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ynghyd â dulliau adolygu priodol.
   Tystiolaeth bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis, lle bo hynny'n briodol, o ran y gwasanaethau yr hoffent fanteisio arnynt.

Dymunol

4. Gwasanaethau o ansawdd da sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu sy'n gallu arddangos gwerth gorau. Gofal preswyl sy'n "ateb y diben" ac sy'n cwrdd â safonau cofrestru.

5. Pwyslais ar gyflawni blaenoriaethau canedlaethol a lleol a datblygiad amlwg yn y meysydd hyn.

6. Trefniadau mynediad priodol i wasanaethau sy'n cael digon o gyhoeddusrwydd, sy'n hawdd ac yn deg. Cysylltiad cydlynol rhwng asiantaethau fel bod defnyddwyr yn profi mynediad a darpariaeth di-dor o wasanaethau.
   Ffordd o sicrhau bod cyfle cyson i ddefnyddio gwasanaethau ar draws yr awdurdod.

7. Comisiynnu strategol sy'n gynhwysol. Tystiolaeth i brofi fod penderfyniadau'n cael eu cymryd ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael a'u bod yn dilyn dull Gwerth Gorau o ddewis darparwyr.

8. Safonau ymarfer y mae'r cyhoedd yn eu deall a bod perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn cael ei fonitro.

9. Amrediad o wasanaethau a dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu cryfderau ac amrywiaeth y gymuned gyfan.

10. Ymrwymiad i roi llais i ddefnyddwyr a gofalwyr wrth lunio gwasanaethau, ar lefel yr unigolyn ac ar lefel grŵp.
Diwylliant sy'n rhoi pŵer i ddefnyddwyr gwasanaethau o ran gwneud trefniadau ar gyfer darparu gofal.
Gwasanaethau wedi'u datblygu mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys defnyddwyr a gofalwyr.

11. Grŵp staff sy'n ymrwymedig ac sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu cefnogi gan systemau effeithiol ac effeithlon.

RHAGOLYGON AR GYFER GWELLA

A yw'r Awdurdod mewn sefyllfa i wella o gofio'i hanes, ei systemau cyfredol a'i allu i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u nodi?

Mae gan yr Awdurdod:

Hanfodol (Pwysig iawn)

1. Hanes (dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o leiaf) o nodi cryfderau a gwendidau o fewn meysydd gwasanaeth ac mae tystiolaeth ei fod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau.

2. Ymwybyddiaeth o'i gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu sydd yn amlwg yn y Datganiad Safbwynt.

3. Y gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i wendidau sydd wedi dod i'r amlwg; gyda chanlyniadau amlwg ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

4. Adolygiadau Gwerth Gorau Effeithiol sy'n cael eu defnyddio i nodi blaenoriaethau strategol a newid effeithiol. Datblygiad amlwg yn y gwaith o gymryd camau a monitro canlyniadau yn dilyn adolygiadau Gwerth Gorau.

5. Tystiolaeth bod camau wedi'u cymryd yn dilyn archwiliadau, arolygiadau a gwerthuso ac adolygiadau allanol eraill.

6. Gwelliannau amlwg mewn fframweithiau asesu perfformiad cenedlaethol a lleol. Tystiolaeth y bydd y gwelliannau pwysig hyn yn parhau. Lle bo perfformiad eisoes yn y chwartel uchaf mae gwaith ar droed i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal neu'n cael ei wella ymhellach.

7. Arweiniad gwleidyddol effeithiol sydd yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r materion sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a dulliau ar gyfer pennu cyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol ac i fonitro perfformiad.

8. Arweiniad effeithiol gan reolwyr, sy'n arwain strategaethau clir ac sy'n sicrhau canlyniadau i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol pobl leol y cytunwyd arnynt.

Dymunol

9. Strategaethau a chamau sy'n cael eu rhannu gyda phartneriaid allweddol a budd-ddeiliaid. Strategaethau (a chamau) Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cysylltu strategaethau (a chamau) corfforaethol a chynlluniau cymunedol. Partneriaethau sy'n ymddangos yn dda gyda seiliau cadarn ar gyfer cydweithio a thystiolaeth bod cynnydd eisoes wedi'i wneud.

10. Trefniadau da ar gyfer rheoli cyllid gan gynnwys strategaethau ariannol, dulliau rheoli cyllideb a phennu costau unedau yn y tymor canolig. Dim sy'n peri syndod yn y flwyddyn, gan fod y data ar gyllid a gwaith yn gysylltiedig ac mae tueddiadau yn cael eu monitro'n glòs. Hanes o gymryd y camau priodol pan fo peryglon yn dod i'r amlwg. Strategaethau ariannol sy'n gysylltiedig â strategaethau gwasanaeth a chorfforaeth.
Mecanwaith ar gyfer profi a gwerthuso bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon.

11. Tystiolaeth bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â gofynion adnoddau dynol y dyfodol.

12. Strategaethau llwyddiannus gyda chanlyniadau amlwg esioes wedi'u sefydlu i hyrwyddo polisi cyfle cyfartal/gwerthfawrogi gwahaniaethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a staff.